Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ganolfan Addysg Gwenllian

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2017**

## Cyd-destun

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gofrestru Canolfan Addysg Gwenllian yn ysgol ddydd annibynnol yn 2012. Fe'i cofrestrwyd yn wreiddiol i ddisgyblion 5 i 11 oed ag anhwylder y sbectrwm awtistig. Hyd at Fedi 2016, roedd un disgybl ar gofrestr yr ysgol. Ym Mai 2016, cyflwynodd y perchenogion gais am newid sylweddol i ymestyn ystod oedran y disgyblion i 5 i 19 oed. Dros y ddau dymor diwethaf, mae'r nifer ar y gofrestru wedi cynyddu'n gyflym i 10 disgybl ar draws yr ystod oedran hon. Mae gan yr holl ddisgyblion anghenion cymhleth sy'n cynnwys anawsterau cyfathrebu, ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r holl ddisgyblion yn byw gartref gyda'u teuluoedd, ac mae Saesneg yn famiaith iddynt.

Y pennaeth cymwys iawn yw perchennog yr ysgol hefyd. Er Medi 2016, mae wedi cyflogi staff newydd gydag amrywiaeth o gymwysterau addysgu, cymorth dysgu a chymwysterau proffesiynol defnyddiol a pherthnasol eraill. Mae rhaglen sefydlu lawn i staff, sy'n cynnwys hyfforddiant, er enghraifft mewn diogelu, cymorth cyntaf a gyrru bws mini. Yn ogystal, mae'r pennaeth yn cynnig hyfforddiant yn fewnol i godi ymwybyddiaeth staff o anghenion disgyblion o ran anhwylderau'r sbectrwm awtistig ac i sicrhau cysondeb yn yr ymyriadau ymddygiadol a gyflawnir gan staff.

Mae'r ysgol yn cael ei chynnal mewn adeilad un llawr sy'n cynnig nifer o fannau addysgu bach. Mae lle ychwanegol i ddisgyblion hŷn mewn uned symudol ar y safle. Mae gan yr ysgol ardal chwarae fechan yn yr awyr agored ac mae'n defnyddio cyfleusterau lleol oddi ar y safle yn helaeth, er enghraifft ar gyfer nofio a marchogaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth briodol i sicrhau amgylchedd digynnwrf, anogol sydd wedi galluogi disgyblion newydd i gynefino'n gyflym â'r drefn a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae lefel uchel o gymorth oedolyn fesul disgybl.

Mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra'n briodol i fodloni anghenion disgyblion unigol ac mae'n rhoi amrywiaeth addas o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda.

Mae staff yn defnyddio cyfathrebu trwy gyfnewid lluniau yn gyson i ymestyn dysgu disgyblion.

Mae gan staff amrywiaeth o gymwysterau proffesiynol addas. Yn ogystal, mae'r ysgol yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol i ddatblygu'u medrau mewn amrywiaeth o feysydd priodol gan gynnwys, er enghraifft, sut i gefnogi disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o arbenigwyr proffesiynol, er enghraifft ymgynghorydd dadansoddi ymddygiad cymhwysol a therapydd galwedigaethol, i amlygu ffyrdd o wella ymgysylltiad disgyblion â dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau priodol i asesu anghenion disgyblion ac mae staff yn monitro eu rhaglenni a'u cynnydd yn effeithiol. Mae portreadau ysgrifenedig a phroffiliau disgyblion unigol yn rhoi golwg ddefnyddiol o gryfderau, anghenion, hoffterau a chasbethau pob disgybl.

### Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol wedi ehangu'n gyflym eleni ac mae wedi canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau dydd i ddydd. Er bod y rhain yn briodol ar y cyfan, nid yw systemau gweinyddol yr ysgol bob amser yn ddigon clir. Er enghraifft, mae gormod o ffeiliau ar wahân ar gyfer pob disgybl, sy'n aml yn cynnwys copïau o'r un wybodaeth wedi'i dyblygu. Mae ansawdd cofnodion canolog yn amrywio'n ormodol ac nid ydynt yn cynnwys manylion pwysig bob amser.

Mae'r pennaeth yn chwarae rhan weithgar mewn rheoli gweithgareddau'r ysgol o ddydd i ddydd ac mae hyn yn cymryd llawer o'i amser. Mae staff yn dechrau cymryd cyfrifoldeb, er enghraifft am feysydd y cwricwlwm, ond megis dechrau y mae hyn.

O ganlyniad i'r ffocws ar reoli newid eleni, megis dechrau o hyd y mae'r ysgol wrth ddatblygu hunanarfarnu i lywio gwelliant yr ysgol.

Yn dilyn yr ymweliad, cyflwynodd yr ysgol gais am newid sylweddol i Lywodraeth Cymru i'w chaniatáu i ddefnyddio uned symudol fel gofod ychwanegol.  Mae Estyn wrthi'n cydweithio â'r ysgol ynghylch y cais hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn cael effaith ar gynllunio'r ysgol ar gyfer gwella

A2 Sicrhau bod cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys targedau ac amserlenni clir a'i fod yn rhoi pwyslais priodol ar wella addysgu a dysgu

A3 Gwella ansawdd a chysondeb gweinyddu a chadw cofnodion

A4 Datblygu rolau arwain staff i alluogi'r pennaeth i reoli'r ysgol yn fwy effeithiol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn effeithio ar gynllunio ar gyfer datblygu'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi ehangu'n gyflym ers yr arolygiad diwethaf, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ar y gofrestr ac ystod oedran eang. Yn anochel, mae ffocws y pennaeth wedi bod ar benodi a sefydlu staff newydd, a datblygu polisïau a gweithdrefnau dydd i ddydd ar gyfer yr ysgol. O ganlyniad, megis dechrau y mae hunanarfarnu o hyd. Fodd bynnag, mae'r pennaeth wedi defnyddio arweiniad Estyn ar hunanarfarnu i nodi meysydd i'w hadolygu. Er enghraifft, mae'n monitro perfformiad staff, er bod y broses yn anffurfiol ar hyn o bryd. Mae wedi dechrau gofyn barn rhieni a gofalwyr am waith yr ysgol trwy holiadur.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod y cynllun gwella ysgol yn fanylach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn rhy gyffredinol. Er ei fod yn nodi meysydd i'w gwella a'r staff sy'n gyfrifol, nid yw targedau ac amserlenni yn ddigon clir. Mae llawer o dargedau yn cyfeirio at wella'r safle a'r adnoddau. Er bod yr agweddau hyn yn hanfodol ar yr adeg hon yn natblygiad yr ysgol, nid oes digon o ffocws ar arfarnu a gwella ansawdd addysgu a dysgu.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o bolisïau sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol.

**Argymhelliad 4: Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am newid sylweddol i ymestyn ystod oedran disgyblion i gynnwys y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ym Mai 2016, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gais yr ysgol am newid sylweddol i ymestyn ystod oedran y disgyblion, i 5 i 19 oed.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Canolfan Addysg Gwenllian |
| **Rhif yr ysgol** | 6696015 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 20/03/2017 |
| **Perchennog** | Reflect Education Ltd |
| **Staff** | 1 pennaeth, 1 pennaeth cynorthwyol, 2 athro, 2 uwch gynorthwyydd addysgu, 10 cynorthwyydd addysgu, 2 gynorthwyydd cymorth, 1 rheolwr safle, 1 cynorthwyydd gweinyddol, 3 goruchwylydd amser cinio |
| **Nifer y disgyblion** | 10 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Dd/B |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/01/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Dd/B |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Rosemary Lloyd Lait | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |